



Rhwydwaith  
Cyd-gynhyrchu  
Cymru

Co-production  
Network  
for Wales

# Mes yn Dderw: cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

## Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru Adroddiad Blwyddyn Un

Ebrill 2022

Ena Lloyd, Rheolwr y Rhaglen

*Ariennir gan*

*Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol  
Cefnogi Syniadau Gwych*



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>2. Yr hyn a wnaethom ym mlwyddyn un</b>	<b>3</b>
A. Adeiladu'r tîm	3
Tîm cymorth y rhaglen	3
Y tri thîm prosiect	5
B. Gweithgareddau gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	6
Gogledd Cymru	7
Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr	8
Powys	8
Gorllewin Cymru	8
Myfyrio ar un flwyddyn o weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	9
C. Gweithgareddau Ategol (mewnol)	9
Cyfarfodydd tîm wythnosol	9
Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen	10
Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso	10
Chwilio'r gorwel a chynllunio ymlaen	12
Tracio a monitro'r gyllideb	12
D. Rhannu arfer trwy gylchlythyron a digwyddiadau ar-lein	13
"Nodyn cyd-gynhyrchu" trwy e-bost bob pythefnos	13
Digwyddiadau dysgu a rhannu misol ar-lein	13
Digwyddiadau eraill i rannu gyda'n rhwydweithiau ehangach	14
E. Dod i gyswllt â mudiadau a rhwydweithiau eraill	15
Grŵp strategol y rhaglen	15
Rhwydwaith Swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru	16
Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	16
Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar	16
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	17
F. Gweithgareddau ychwanegol y rhaglen	17
<b>3. Yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu ym mlwyddyn un</b>	<b>19</b>
A. Gogledd Cymru	19
B. Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr	20
C. Powys	21
D. Themâu cyffredinol a amlygodd ym mlwyddyn un	22
Tyfu'r ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad	22
Sefydlu cydweithio cadarn fel elfen sy'n angenrheidiol ar gyfer cyd-gynhyrchu	23
Cynllunio digon o adnoddau i mewn (o ran amser a sgiliau) ar gyfer cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad	24

Tueddiadau cadarnhaol sy'n datblygu ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	25
<b>4. Risgiau a heriau</b>	<b>26</b>
A. Risgiau a heriau i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	26
B. Risgiau a heriau i'r timau prosiect	27
C. Dadansoddiad ymlaen llaw	28
<b>5. Y diweddaraf am gyllid a'r gyllideb</b>	<b>29</b>
A. Costau staff: tanwariant	29
1. Gorwariant ar reoli'r rhaglen	29
2. Tanwariant ar ymgynghorwyr cyswllt	29
3. Tanwariant ar swyddog cyfathrebu	30
4. Gorwariant ar gostau recriwtio	30
5. Gorwariant ar gostau cychwyn	30
6. Tanwariant ar hyfforddiant	30
B. Gorbenion: ar y trywydd cywir	31
1. Tanwariant ar safle (gofod swyddfa)	31
2. Tanwariant ar gyfleustodau	31
3. Gorwariant ar orbenion y rhaglen	31
C. Costau cyflawni: tanwariant	31
1. Tanwariant ar farchnata a chyfathrebu	31
2. Tanwariant ar deithio	32
D. Pob cost arall: ar y trywydd cywir	32
1. Darpariaeth wrth gefn	32
2. Taliadau dileu swydd	32
E. Monitro ac adrodd parhaus mewn perthynas â chyllid	33
<b>6. Casgliad</b>	<b>33</b>



# 1. Cyflwyniad

Nod y rhaglen hon yw symud yr arfer o ymgysylltu tuag at gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Aethom ati gyda'r bwriad o weithio gyda thri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu dri chlwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn cyfrannu at y broses o gau'r bwllch rhwng dyheadau ein deddfwriaeth ddatganoledig a realiti gweithredu ar lawr gwlad. Oherwydd eu haelodaeth a chyrhaeddiad eu gwaith, bydd newid effeithiol mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael effaith ar ystod o fudiadau, sefydliadau a chymunedau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

Mae'n bleser gennym rannu ein cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd ar ddiwedd ein blwyddyn gyntaf (o'r rhaglen bum mlynedd hon). Rydym wedi wynebu ambell i her, a hynny'n fewnol ac yn allanol, ond wedi llwyddo i addasu at y newid yn yr amgylchiadau er mwyn parhau i feithrin cydberthnasau a chyd-ddealltwriaeth, a chefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella'u hymgysylltiad ar drywydd gwell cyfranogiad a chynhwysiant. Er ein bod ni ymhell o gyrraedd ein nod o ran cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad, rydym yn falch o adrodd bod y flwyddyn hon wedi gosod sylfaen gadarn y byddwn yn parhau i adeiladu arni er mwyn datblygu gweithio effeithiol ar draws ein 3 chlwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn dechrau trwy gyflwyno'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn gyntaf, o ran sefydlu ein tîm, gweithio'n uniongyrchol gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r ystod o weithgareddau eraill sy'n cefnogi'r gwaith hwn. Yna, rydym yn mynd ymlaen i rannu'r hyn a ddysgwyd ymhob clwstwr, a'r myfyrdodau ar eu cyfer, yn ogystal â'r tueddiadau cyffredinol sy'n amlygu ar draws ein gwaith; cyn meddwl ymlaen at risgiau a heriau posibl y byddwn yn parhau i fod yn effro iddynt. Yn olaf, rydym yn cyflwyno dadansoddiad o'n cyllideb a'n costau, ac addasiadau a gynigir o flwyddyn 2.



## 2. Yr hyn a wnaethom ym mlwyddyn un

### A. Adeiladu'r tîm

#### Tîm cymorth y rhaglen

Yn ystod y 6 mis cyntaf, roedd Rheolwr y Rhaglen (Rachel Wolfendale) yn ei swydd, gyda chymorth Cyfarwyddwr Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (Noreen Blanluet).

Aethpwyd ati i recriwtio Cydlynnydd y Rhaglen o fis Mehefin 2021 a phenodwyd Daniel Barnett yn Gydlynnydd y Rhaglen ym mis Medi 2021. Mae'n gweithio 30 awr yr wythnos dros 4 diwrnod gwaith, a'i rôl yw cefnogi Rheolwr y Rhaglen i weithio ar y rhaglen Mes yn Dderw. Mae hefyd yn gysylltiedig â gweithgareddau ehangach Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn rhan annatod o bortffolio'r Rhwydwaith. Mae ei rôl yn cynnwys:

- cefnogi gweddill y tîm (rheolwr y rhaglen a'r ymgynghorwyr) mewn gweithgareddau rheolaidd, yn ogystal â gwaith *ad hoc* (e.e. chwilio'r gorwel, datblygu fframwaith gwerthuso);
- datblygu Rhwydwaith Dysgu a Rhannu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (ar gyfer holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) gan gynnwys rhaglen o ddigwyddiadau ar-lein a diweddariadau ysgrifenedig rheolaidd;
- cynnal ein cronfa ddata o gysylltiadau a'i diweddaru, er mwyn sicrhau bod negeseuon am y prosiect yn cyrraedd y bobl iawn;
- profi syniadau a thechnegau er mwyn gwella'r niferoedd y mae ein cyfathrebu yn eu cyrraedd ar draws Rhwydwaith Dysgu a Rhannu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- gofalu am y logisteg a'r monitro ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau ar-lein, ac ar gyfer cyfarfodydd tîm (ar-lein ac wyneb-yn-wyneb);
- cynllunio digwyddiadau i rannu gwybodaeth am y rhaglen gyda chynulleidfa ehangach Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, a'u cefnogi;
- sicrhau bod cyfathrebu'n glir ac yn gynhwysol, trwy fonitro'r sianeli cyfryngau cymdeithasol, dod i gyswllt â chyfieithwyr Cymraeg, creu elfennau gweledol a sicrhau bod ein neges yn berthnasol ac yn cael ei deall yn ddwyieithog;
- gweithio ar draws amrywiaeth o lwyfannau, gan gynnwys gwefannau a chyfryngau cymdeithasol; ac mewn amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys dulliau ysgrifenedig, clyweledol ac allbynnau creadigol eraill;
- cyfrannu at y gwaith o gynllunio a chyflawni digwyddiadau a chyfathrebu'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu ehangach, er mwyn sicrhau bod y rhaglen hon yn weledol.

Aeth Rheolwr y Rhaglen, Rachel Wolfendale, ar gyfnod mamolaeth ddiwedd mis Tachwedd 2021. Recriwtiwyd Ena Lloyd i weithio yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n siaradwraig Gymraeg rhugl a chanddi brofiad o weithio ar raglenni aml-flwydd gydag Archwilio Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd yna fis o gyfnod trosglwyddo ym mis Tachwedd 2021 (ac yn yr un modd mae yna fis o drosglwyddo wedi'i gynllunio wrth i Rachel Wolfendale ddychwelyd ym mis Medi 2022). Roedd hyn yn gyfle i Ena feithrin dealltwriaeth dda o'r rhaglen a'r tîm cyn ymgymryd â'r rôl yn llawn. Mae rôl Rheolwr y Rhaglen yn cael ei chyflawni mewn 16 awr yr wythnos, a hynny dros 4 diwrnod gwaith, ac mae'n canolbwyntio ar:

- reoli a chefnogi'r timau o ymgynghorwyr, a Chydlynnydd y Rhaglen;
- cynrychioli'r rhaglen ar draws mudiadau, sefydliadau a rhwydweithiau allanol, a rhannu'r canfyddiadau a'r hyn a ddysgwyd;
- datblygu'r systemau monitro a gwerthuso byrdymor a hirdymor i gefnogi'r gallu i grisialu'r hyn a ddysgwyd a'r effaith;
- cadw mewn cof y cynllunio a'r monitro hirdymor ar gyfer y rhaglen, gyda golwg ar le gwaith pob blwyddyn yn y nodau a'r weledigaeth ehangach.

## Y tri thîm prosiect

Law yn llaw â recriwtio'r clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan gyntaf y prosiect, aethom ati i recriwtio 6 ymgynghorydd cyswllt a oedd naill ai'n gweithio gyda'r Rhwydwaith yn barod, neu wedi datgan diddordeb mewn gweithio gyda'r Rhwydwaith ar raglen y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Parwyd yr ymgynghorwyr i greu timau prosiect ac fe'u cyfatebwyd at y 3 chlwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn y detholiad terfynol, erbyn mis Mehefin 2021. Trwy'r cyfarfodydd tîm mewnol, a'r prosesau ategol, mae'r timau prosiect yn dod i gyswllt â thimau eraill a'r rhaglen ehangach, er mwyn cyflwyno cyd-destun, cymorth ac adnoddau ychwanegol i'w gwaith.

Mae'r ymgynghorwyr cyswllt yn weithwyr llawrydd, ac ym mlwyddyn 1 cawsant eu contractio i dreulio hyd at 6 awr yr wythnos, yr un, ar y rhaglen hon. Roedd yr amser hwn wedi'i rannu'n fras rhwng 4 awr yr wythnos o amser cyswllt uniongyrchol gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a 2 awr yr wythnos o gyfarfodydd tîm mewnol a phrosesau ategol. Roedd gan bob clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fynediad at hyd at 1.5 diwrnod o amser ymgynghorwyr bob wythnos. Trwy weithio gyda gweithwyr cyswllt llawrydd (yn hytrach na gweithwyr cyflogedig) mae gennym yr hyblygrwydd i ymateb i anghenion heb orwario ar gapasiti sydd heb ei ddyrannu at y gwaith.

Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Chwefror 2022, llwyddodd yr ymgynghorwyr a weithiai ar draws y tri chlwstwr i gyflawni:

- 850 awr o ymgynghori (yn wynebu cleientiaid ac amser tîm)
- 470 awr o amser yn wynebu cleientiaid (12 awr yr wythnos, ar gyfartaledd, ar draws y rhaglen)
- 380 awr ar gyfarfodydd mewnol a phrosesau ategol (10 awr yr wythnos ar gyfartaledd)

Mae hyn yn is nag a gynlluniwyd, yn bennaf oherwydd newid yn y clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (o Bowys i Orllewin Cymru, gweler yr adran nesaf) a olygodd fod tîm prosiect Powys yn segur am sawl mis. Ar ddiwedd Blwyddyn 1, wedi i ni edrych ar gynnydd ac ystyried tanwariant, roedd modd i ni gynyddu amser yr ymgynghorwyr i 8 awr h.y. un diwrnod llawn yr wythnos i bob ymgynghorydd, o flwyddyn 2 ymlaen. Mae hyn gywerth â hyd at ddeuddydd o amser ymgynghori i bob clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (i fyny o 1.5 diwrnod).

Timau prosiect	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Mike Corcoran Suzanne Iuppa	<b>Clwstwr Gogledd Cymru:</b> Gwynedd ac Ynys Môn Conwy a Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam

Rae Baker Jenny Mushiring'ani Monjero, yna Andrew Diggle	<b>Clwstwr Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf:</b> Pen-y-bont ar Ogwr Merthyr Tudful a RhCT (Cwm Taf)
Roxanne Treacy Vikki Butler	<b>I gychwyn Powys, ac yna clwstwr Gorllewin Cymru:</b> Ceredigion Sir Benfro Sir Gaerfyrddin

Ym mis Chwefror 2022, penderfynodd Jenny Mushiring'ani Monjero (tîm prosiect Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf) i gamu yn ôl o'i gwaith ar brosiect Mes yn Dderw. Mae hefyd yn gweithio'n rhan-amser i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, a themlai ei bod yn cael ei thynnu i gyfeiriadau gwahanol yn sgil ei rôl gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i rôl fel ymgynghorydd gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roeddem wedi ystyried y risg hon wrth lunio cyfansoddiad y timau, ond teimlem y byddai'n werth rhoi tro arni, am fod ganddi berthnasau gweithio sefydledig a chysylltiadau ar draws y rhanbarth. Erbyn diwedd blwyddyn 1, er ei bod wedi adeiladu llawer o waith ar y perthnasau hynny, penderfynodd Jenny ei bod yn amser iddi symleiddio'i rolau a chanolbwyntio ar ei rôl gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Safodd i lawr o'i rôl yn y tîm prosiect a phenodwyd Andrew Diggle yn ei lle, ar ôl cyfnod o drosglwyddo ac ymsefydlu.

## **B. Gweithgareddau gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Yn rhan gyntaf blwyddyn un, roedd ein ffocws ar ledaenu gwybodaeth am y rhaglen trwy ein rhwydweithiau, a recriwtio'r clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y byddem yn gweithio gyda nhw. Aethom ati i estyn allan trwy:

- ein cylchlythyr a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol,
- rhwydwaith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o fudiadau'r trydydd sector
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru trwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru,
- Cyngorau Gwirfoddol Sirol Cymru,
- Rhwydweithiau Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau,
- Rhwydweithiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,
- Cyfoeth Naturiol Cymru,
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol,
- Rhwydweithiau Confederasiwn GIG Cymru,
- Rhwydwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru,
- trwy'r cefnogwyr a ysgrifennodd ddatganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig,
- a thrwy gysylltu'n uniongyrchol â phartneriaid y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr oeddem yn gwybod amdanynt yn ein rhwydweithiau.

Aethom ati i wahodd Datganiadau o Ddiddordeb a holwyd 7 cwestiwn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr oedd ganddynt ddiddordeb:

1. Pwy ydych chi, a pha Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (neu glwstwr) ydych chi'n ysgrifennu ar ei ran?
2. Pa aelodau eraill o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (neu'r clwstwr) ydych chi wedi trafod y cyfle hwn gyda nhw, a phwy sy'n gefnogol? A oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau neu bryderon?
3. Beth ydych chi'n ei wneud yn barod o ran ymgysylltiad ac ymgyfraniad?
4. Beth yw eich dull gweithredu hyd yn hyn, yn benodol o ran yr Asesiadau Llesiant?
5. Pa werth fyddai'r rhaglen hon yn ei ychwanegu at eich gwaith presennol, a sut fyddai'n cynyddu eich effaith?
6. Pwy fyddai'n rhan o'r tîm y buasem yn gweithio'n uniongyrchol gydag ef? A fydd ganddynt y capasiti (o ran amser, ac o ran ffocws) i ymgymryd â'r gwaith hwn?
7. A oes cefnogaeth a chaniatâd ar lefel yr uwch-reolwyr, i gefnogi'r gwaith hwn a'i symud yn ei flaen?
8. Os ydych chi'n glwstwr, beth yw'ch trefniadau a pha mor dda ydy'ch arferion cydweithio wedi'u sefydlu?

Cynhaliwyd cyfweiliadau anffurfiol gyda phob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a ymgeisiodd, i gyd-fynd â'r cais ysgrifenedig ac i gael ymdeimlad llawnach o'u cyd-destun. (Roedd pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru wedi ymgeisio, naill ai'n unigol neu fel clwstwr, ac eithrio Caerdydd.) Dewiswyd tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu glwstwr, a sicrhawyd bod y tri, rhyngddynt, yn cynrychioli'r ddaearyddiaeth a'r poblogaethau gwahanol/ddemograffeg wahanol. Dewiswyd hefyd fel bod y rheiny yr oeddem yn dewis gweithio gyda nhw yn rhoi'r cyfle pennaf i ni gael effaith.

O fis Mehefin 2021, dechreuodd y timau prosiect (ein parau o ymgynghorwyr cyswllt) ddatblygu cydberthnasau a chwmpasu'r gwaith gyda'u clystyrau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Aethant ati i sefydlu cynlluniau prosiect, gan ganolbwyntio ym mlwyddyn un ar gefnogi'r ymgysylltiad ar gyfer yr Asesiadau Llesiant, a oedd ar frig rhestr o flaenoriaethau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Isod, cyflwynwn grynodedeb o'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn gyda phob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu glwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Gogledd Cymru

Mae'r tîm prosiect wedi bod yn cefnogi'r gwaith o gyd-gyflawni ymgysylltiad â'r cyhoedd ar gyfer yr Asesiadau Llesiant trwy 9 gweithgaredd penodol, gan gynnwys: gweithdai i ymgysylltu â grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig, holiaduron i'r cyhoedd, taflenni i godi ymwybyddiaeth, ffeithluniau, a chylchgrawn llesiant a ddyluniwyd gan bobl ifanc. Er nad yw hyn yn gyd-gynhyrchu eto, mae cydberthnasau o ymddiriedaeth yn cael eu meithrin, ac mae hyder swyddogion yn tyfu o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae swyddogion ar draws rhanbarth Gogledd Cymru hefyd yn dod i gyswllt mewn cydberthnasau o gydweithio ac yn dechrau



rhannu gwybodaeth, er enghraifft, am yr ymarferion ymgysylltu sy'n cael eu gwneud, er mwyn lleihau dyblygu. Mae'r tîm yn amcangyfrif bod gweithgareddau blwyddyn un yn cynrychioli conglfaen cychwynol cadarn, gyda thystiolaeth o archwaeth am gyd-gynhyrchu.

### Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr

Bu'r tîm prosiect yn rhannu damcaniaethau ac egwyddorion dulliau ymgysylltu arloesol, a chroesawyd hyn yn fawr gan swyddogion ac aelodau o staff, a adroddai eu bod yn teimlo'n llawn brwdfrydedd a gobaith. Yn ganlyniad i rannu syniadau, mabwysiadwyd y "dull ymgysylltu 100 diwrnod", er mwyn symud ymlaen â ffocws, yn gyflym. Gwelwyd yr uchelgais fel un cadarnhaol iawn, a defnyddiwyd nifer o offerynnau a thechnegau yn ystod y 100 diwrnod o weithgarwch, gan gynnwys yr offeryn 'hacathon' a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus ar y cyd gan y tîm a'r swyddogion. Llwyddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella ymgysylltiad gyda lleisiau nad oeddent yn cael eu clywed yn aml, a dywedodd y swyddogion eu bod wedi cael sgysiau hynod o bositif, a gynyddodd eu profiad a'u hyder. Dywedont fod y gweithgareddau wedi cyfoethogi'r Aseiad Llesiant yn fawr.

### Powys

Dywedodd y tîm prosiect fod y gwaith cynllunio a pharatoi cychwynol wedi mynd yn dda. Nodwyd meysydd allweddol ar gyfer gweithio ar y cyd a chyd-gynhyrchu, a chyflwynwyd hyfforddiant 'Cyflwyniad i gyd-gynhyrchu' gydag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r swyddogion (24 cyfranogwr). Fodd bynnag, yn gynnar yn yr Hydref, 2021, gwelodd y tîm prosiect fod rhai heriau cyfathrebu mewnol yn amlygu gyda swyddogion a rhwng swyddogion. Gyda chefnogaeth Rheolwr y Rhaglen a Chydlynedd y Rhaglen, parhawyd i gadw llygad ar y mater, a cheisiwyd datrys y tensiynau er mwyn symud ymlaen â'r gwaith yn ôl y bwriad. Codwyd pryderon yn fewnol am y cyfathrebu gwael rhwng swyddogion a phartneriaid allweddol, a rhwng aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn anffodus, erbyn diwedd y flwyddyn, cysylltodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys â'r tîm prosiect i dynnu nôl o'r rhaglen, gan eu bod yn teimlo na allent ymrwymo'r adnoddau gofynnol, gan nodi pwysau gwaith a chynnydd yn y galwadau arnynt yn sgil Covid-19, fel rhesymau.

Aeth Rheolwr y Rhaglen a'r tîm prosiect ati i ddadansoddi'r ymatebion gwreiddiol a gafwyd fel Datganiadau o Ddiddordeb a'r rhestr fer gychwynol, er mwyn dod o hyd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall i gymryd eu lle yn y rhaglen. Wedi ychydig fisoedd o gynig a thrafod, dewiswyd clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gorllewin Cymru (Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin), a chytunwyd yn derfynol ar hyn yn gynnar yn 2022.

### Gorllewin Cymru

Ymunodd y clwstwr hwn yn agos at ddiwedd blwyddyn un, ond gwelwyd cynnydd yn barod. Mae'r cam ymsefydlu ar waith, a'r tîm prosiect yn datblygu cydberthnasau gyda chysylltiadau allweddol ac yn llunio strategaeth i weithio ar draws y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

gyda'i gilydd. Bydd y prosiect yn symud at y cam gweithredu / gwneud yn ystod chwarter un yn yr ail flwyddyn.

### Myfyrio ar un flwyddyn o weithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn dda:

- meithrin cydberthnasau o ymddiriedaeth a chefnogaeth gyda chysylltiadau allweddol ym mhob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / clwstwr;
- dyfeisio cynlluniau gwaith sy'n cefnogi gweithgareddau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (e.e. y cam ymgysylltu ar gyfer yr Asesiadau Llesiant) tra'n eu symud tuag at ddealltwriaeth gadarn o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad;
- eu cefnogi i gyflwyno gwasanaethau ymgysylltu cyffyrddadwy sy'n tynnu ar werthoedd cyd-gynhyrchu, ac sydd wedi galluogi twf mewn profiad a hyder;
- annog datblygiad cydberthnasau cydweithio effeithiol a fydd yn cefnogi'r broses o gyflawni trwy gyd-gynhyrchu yn y dyfodol.

Yr hyn yr ydym yn dymuno'i wella:

- parhau i atgyfnerthu ein rôl fel ymgynghorwyr sy'n cynnig cymorth cynghorol ac yn meithrin gallu yn nhimau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (rydym yn gwneud gyda ac nid ar gyfer);
- galluogi pob actor allweddol i sefydlu dealltwriaeth gyffredin a chadarn o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad;
- cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i adnabod mwy o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad go iawn, sy'n arwain at gyd-gynhyrchu, a chynllunio ar gyfer hyn o'r cychwyn;
- rhannu ein gwaith, y canfyddiadau a'r hyn a ddysgwyd yn ehangach, ar draws y rhwydwaith o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill, ac yn fwy eang ar draws rhwydweithiau'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu.

## C. Gweithgareddau ategol (mewnol)

Er mwyn cefnogi'r hyn a oedd ar waith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'i gryfhau, sefydlwyd prosesau mewnol sy'n galluogi'r timau prosiect i rannu gwybodaeth ac arfer; i ddatblygu meini prawf ar gyfer monitro a gwerthuso; ac i gadw llygad ar ddatblygiad mwy hirdymor y rhaglen dros 5 mlynedd.

### Cyfarfodydd tîm wythnosol

Mae pob ymgynghorydd yn bwydo diweddariadau wythnosol i mewn i daenlen ganolog, gan sôn am eu gweithgarwch ac unrhyw heriau, llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd. Mae hyn yn galluogi pob un ohonynt i asesu'r sefyllfa a myfyrio, ac mae hefyd yn adeiladu 'cof corfforaethol'

y bydd yn ddefnyddiol edrych yn ôl arno wrth lunio adroddiadau ac ar gyfer sesiynau ymsefydlu os oes aelod o'r tîm yn newid.

Yna, mae'r tîm cyfan yn cwrdd yn wythnosol am awr, mewn sesiwn sydd wedi'i lled-strwythuro, sy'n eu galluogi i gysylltu â'i gilydd fel tîm cyfan, yn ogystal â thrafod unrhyw bwyntiau y mae'n werth eu nodi o'r daenlen diweddariadau wythnosol. Mae Rheolwr y Rhaglen hefyd yn cyflwyno eitemau ar gyfer yr agenda i'w trafod ac i fyfyrion arnynt. Mae hwn yn lle gwerthfawr i'r timau prosiect wrando a dysgu oddi wrth ei gilydd; ac i dîm y rhaglen gyfan gefnogi ei gilydd wrth gynllunio ac arfer.

### Cefnogaeth gan Reolwr y Rhaglen

Mae Rheolwr y Rhaglen hefyd wedi sefydlu arfer o gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phob tîm prosiect unigol, a hynny'n fisol wrth fynd ymlaen. Mae hyn yn galluogi'r tîm i rannu diweddariad statws sydd â mwy o ffocws ar eu heffeithiolrwydd a'u llesiant, ac i godi unrhyw faterion neu bryderon. Mae Rheolwr y Rhaglen yn cynnal ymdeimlad o'r ffordd y mae'r timau'n dod yn eu blaenau a'r cymorth y gallai fod arnynt ei angen.

Mae cyfarfodydd adolygu un-i-un blynyddol hefyd yn cael eu treialu ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022, gyda'r ymgynghorwyr unigol, i roi lle i fyfyrion ar lefel bersonol, ac i edrych yn ôl er mwyn edrych ymlaen. Byddant yn cael eu modelu ar sesiynau goruchwyliaeth misol staff y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu, ac yn cynnwys adolygu perfformiad, asesu'r sefyllfa o ran datblygiad proffesiynol, a gwirio llesiant

### Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso

Dechreuwyd datblygu fframwaith monitro a gwerthuso trwy gyfres o weithdai tîm, gan fapio'r holl fathau gwahanol o effeithiau yr ydym yn anelu at eu cyflawni (ar gyfer timau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, eu cymunedau, y dirwedd ehangach o ran gwasanaethau cyhoeddus, a'n tîm ni ein hunain).

Rydym wedi mireinio'r rhain i greu'r 3 phennawd hyn i ddechrau, ac maent yn tracio allbynnau cyffyrddadwy a newidiadau y gellir eu gweld mewn ymddygiadau. Mae'r timau'n adrodd yn ôl am unrhyw arwyddion o newid yn erbyn y mesurau hyn, yn y cyfarfodydd wythnosol:

#### **1. Tystiolaeth o barodrwydd, dealltwriaeth ac arfer cyd-gynhyrchu**

Rydym yn chwilio am arwyddion:

- fod gan yr unigolion a'r timau yr ydym yn gweithio gyda nhw well dealltwriaeth o gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid
- bod yr unigolion a'r timau yr ydym yn gweithio gyda nhw yn dangos mwy o arfer cyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid
- bod yr unigolion a'r timau yr ydym yn gweithio gyda nhw yn cael eu cefnogi gan eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu fudiadau i ymgymryd â'r prosiect hwn

## 2. Tystiolaeth o fwy o gyfraniad ystyrion gan y gymuned at ddylunio a chyflawni gwasanaethau mewn ffordd gyd-gynhyrchiol

Rydym yn chwilio am arwyddion:

- fod cymunedau yn rhan o'r broses, ac nid dim ond yn cael eu hymgysylltu ("gwneud gyda" yn hytrach na "gwneud i")
- bod cynnydd mewn cyd-gynhyrchu gyda chymunedau ym mhrosiectau neu ffrydiau gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- bod cynnydd mewn cyd-gynhyrchu gyda chymunedau yn cael eu crybwyll yn benodol yng nghynlluniau prosiect neu gynigion prosiect y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- bod cynnydd mewn ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu yn arbennig gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig
- bod cydberthnasau gwell a newydd gyda chymunedau sy'n dangos cyd-gynhyrchu parhaus (h.y. adrodd yn ôl i gymunedau am gynnydd, "cau'r ddolen")

## 3. Tystiolaeth o newid yn niwylliant y sefydliad

Rydym yn chwilio am arwyddion:

- fod parodrwydd i weithio tuag at gyd-gynhyrchu ar lefel strategol uchaf y sefydliad a'r lefel uchaf o ran gwneud penderfyniadau
- bod parodrwydd i weithio tuag at gyd-gynhyrchu ar bob lefel weithredol mewn sefydliadau
- bod polisiau a gweithdrefnau'r sefydliad yn adlewyrchu egwyddorion cyd-gynhyrchu
- bod ymrwymiad neu fuddsoddiad gan y sefydliad i uwchsgilio pob aelod o staff a phob partner allanol
- bod sefydliadau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn arddangos cydweithio mwy ystyrion (h.y. gyda ffocws ar amcanion a rennir)
- bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn gyffredinol, yn cyfeirio at "ni" ac "ein" (h.y. y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel un bartneriaeth), yn hytrach na'u sefydliad unigol o fewn y bartneriaeth honno
- bod swyddogion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi eu grymuso i weithredu heb ofyn am lefelau o ganiatâd a chytundeb
- bod tystiolaeth fod diwylliant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn newid at ffordd o weithio sy'n fwy cydweithredol
- bod gwerthoedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a rennir) yn sylfaen ar gyfer holl benderfyniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sut y gweithredir

Caiff y rhaglen gyfan ei goleuo gan ddysgu cyson, a gyrrir hyn gan fyfyrion gweithgar. Mae'r adrodd a'r cyfarfodydd wythnosol yn rhoi darlun o'r newidiadau cynyddrannol a'r llwyddiannau bach. Mae sesiynau monitro a gwerthuso ychwanegol bob chwarter a ddwywaith y flwyddyn yn galluogi'r timau i edrych dros gyfnod hirach, ac edrych am dueddiadau sydd efallai ddim yn amlwg mewn amserlen sy'n fwy gronynnol.

## Chwilio'r gorwel a chynllunio ymlaen

Yn gynnar ym mis Mawrth 2022, i farcio blwyddyn gyntaf y prosiect, daeth y tîm cyfan at ei gilydd i feddwl ymlaen at heriau a chyfleoedd posibl ar gyfer y flwyddyn nesaf (blwyddyn 2) yn ogystal â gweddill y rhaglen.

Lluniodd bob tîm prosiect gyflwyniad yn cwmpasu:

- y cyd-destun ehangach sy'n effeithio ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyffredinol (e.e. polisi a deddfwriaethol, economaidd, cymdeithasol a demograffig gan gynnwys Brexit a Covid)
- yr effaith bosibl, yn benodol ar gyfer pob clwstwr
- myfyrio ymlaen: taflu eu hunain ymlaen at ddyddiad gorffen y rhaglen a meddwl am fethiant dychmygol, beth aeth o'i le a beth ellid ei osgoi
- cynllunio ymlaen ar gyfer y mis, y chwarter a'r flwyddyn nesaf - a blynyddoedd 3 i 5

Adroddwyd bod yr ymarfer coladu cyflwyniadau yn ddefnyddiol, a thrwy rannu'r darluniau o bob tîm prosiect gyda phawb arall cafwyd trafodaethau a mewnwleidiadau cynhyrchiol, a fyddai'n dylanwadu ar waith cynllunio a chyflawni parhaus y rhaglen. Bydd y tîm yn parhau i fyfyrrio ac i gynllunio ymlaen gyda'i gilydd ar adegau allweddol.

## Tracio a monitro'r gyllideb

Mae Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn tracio cyllideb y rhaglen yn rhan o'r gweithrediadau ariannol misol ar gyfer y sefydliad cyfan, a chaiff ei hadolygu'n chwarterol gyda Rheolwr y Rhaglen er mwyn hwyluso unrhyw fewnwleidiadau a phenderfyniadau.

Er enghraifft, cafwyd tanwariant ym mlwyddyn 1 oherwydd amser recriwtio hirach a dyddiad cychwyn hwyrach nag a ragwelwyd (ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chydlynedd y Rhaglen), a hefyd oherwydd y newid o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys i Orllewin Cymru, a olygodd bod y tîm yn segur am sawl mis. Ail-ddyrannwyd y tanwariant i mewn i:

- weithgarwch prosiect ychwanegol i gefnogi Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda gwerthusiadau naratif yr Aseidiadau Llesiant (gweler adran F, isod);
- cynyddu'r amser sydd ar gael ar gyfer ymgynghori o 1.5 diwrnod i 2.0 diwrnod i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o flwyddyn 2.

Cyflwynir manylion llawn y gyllideb a'r addasiadau yn adran 5, isod.

## D. Rhannu arfer trwy gylchlythyron a digwyddiadau ar-lein

Er ein bod wedi cael ein hariannu i weithio'n ymarferol gyda 3 chlwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (rydym yn cyfeirio at y rhain fel y "Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd"), rydym yn awyddus i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall ("Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Coch") gael budd o'r rhaglen hefyd. Rydym yn cysylltu â'r rhwydwaith ehangach o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn rhannu canfyddiadau, profiadau a gwersi a ddysgwyd, trwy "nodiadau cyd-gynhyrchu" bob pythefnos, a digwyddiadau dysgu a rhannu misol. Mae hyn hefyd yn ffitio i gyd-destun ehangach cymuned arfer traws-sector y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu, ac amcan ei gylch gwaith, sef dylanwadu ar newid yn fwy ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

### "Nodyn cyd-gynhyrchu" trwy e-bost bob pythefnos

Mae'r "Nodiadau Cyd-gynhyrchu" yn negeseuon e-bost sy'n cael eu hanfon bob pythefnos ac maent yn rhannu mewnwediadau, cyngor ymarferol a'r hyn a ddysgwyd mewn gwaith diweddar gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd yn rhan o'u hasesiadau llesiant, neu ystyriaethau ehangach cyd-gynhyrchu a nodiadau am weithredu.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, rydym wedi rhyddhau 25 o Nodiadau Cyd-gynhyrchu. Ar hyn o bryd, mae yna 60 o unigolion ar y rhestr bostio a swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd a Choch ydynt gan fwyaf (ac ambell un arall sydd â diddordeb yn y cynnwys, o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er enghraifft).

I ddechrau, lluniwyd y nodiadau hyn yn wythnosol, ond roedd y 'gyfradd agor' yn isel iawn. Rydym yn rhagdybio y gallai hyn fod yn ganlyniad i amser cyfyngedig swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddal i fyny â'r negeseuon e-bost hyn ochr yn ochr â'u gwaith beunyddiol; newidiwyd amllder y nodiadau a'u hanfon bob pythefnos ond nid yw hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r niferoedd sy'n agor y negeseuon.

Gallai'r e-gylchlythyr fod ar fformat sy'n gwbl anghywir i ffitio i amserlenni mwyafrif swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond hyd yn hyn mae'n anodd gwybod beth allai fod yn fwy addas. (Er enghraifft, ni fyddai holiadur yn dychwelyd nifer sylweddol o ymatebion oherwydd mae'r niferoedd sy'n ymateb eisoes yn isel). Rydym yn parhau i drafod y mater, i feithrin cydberthnasau ac i roi tro ar sianeli newydd, ac ar yr un pryd yn parhau â'r cyhoeddiad bob pythefnos er budd y rheiny sydd yn ymgysylltu ag ef.

### Digwyddiadau dysgu a rhannu misol ar-lein

Yn ystod haf 2021, wrth i'r timau prosiect ddechrau ar eu gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd, cynlluniwyd a chyflwynwyd cyfres o sesiynau briffio bob pythefnos i gefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Coch; a sefydlwyd amserlen ar gyfer sesiynau dysgu a rhannu arfer yn y dyfodol.

Erbyn hyn, cynhelir y sesiynau hyn yn fisol ac maent yn para awr. Y nod yw cynnig lle myfyrgar i rannu a gwrandao ar brofiadau ymgynghorwyr a swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er mwyn denu diddordeb, rydym yn cynllunio ac yn hyrwyddo rhaglen o destunau i'w trafod. Rydym yn cyfateb y themâu at y cam gwaith sy'n ffocws i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus pan fo hynny'n berthnasol, er enghraifft elfennau ymgysylltu penodol yr Asesiadau Llesiant, neu gyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn amserlennu sesiynau trosglwyddo gwybodaeth, ynghylch elfennau o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a hyfforddiant cyd-gynhyrchu, er mwyn datblygu dealltwriaeth gadarn o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad ymhellach.

Mae'r presenoldeb wedi bod yn is nag yr oeddem wedi'i obeithio, hyd yn hyn (y presenoldeb isaf oedd 2, a'r uchaf oedd 12). I raddau, mae hyn, fwy na thebyg, yn gysylltiedig â'r niferoedd isel sy'n agor y negeseuon e-bost gyda'r "nodiadau cyd-gynhyrchu", lle mae dyddiadau a thestunau'r digwyddiadau yn cael eu cyhoeddi. Rydym yn profi ffyrdd o wella cyfranogiad trwy fanteisio'n well ar ddewis o sianeli cyfathrebu, gan gynnwys:

- Cyhoeddi dyddiadau digwyddiadau ar y calendr ar wefan y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu
- Hyrwyddo'r digwyddiadau ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Anfon marcwyr calendr at swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi'u cofrestru ar y rhestr ddsbarthu
- Rheoli cofrestriadau trwy Eventbrite (yn hytrach na rhyddhau'r ddolen MS Teams yn uniongyrchol at y rhestr ddsbarthu), lle gallwn osod hysbysiadau awtomatig i atgoffa pobl sydd wedi cofrestru
- Anfon hysbysiadau atgoffa at y rhestr ddsbarthu ar wahân i gynnwys y "nodiadau cyd-gynhyrchu" (1 mis ac 1 wythnos cyn y digwyddiad)

Byddwn yn parhau i brofi ein negeseuon e-bost a'n digwyddiadau, a'u hailadrodd, wrth fonitro metrigau allweddol fel dangosyddion llwyddiant, er mwyn darparu cynnwys perthnasol sy'n cefnogi gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

### **Digwyddiadau eraill i rannu gyda'n rhwydweithiau ehangach**

Rydym hefyd yn dymuno rhannu'r gwaith yr ydym yn ei wneud, a'r hyn yr ydym yn ei ddysgu, gyda'n rhwydweithiau ehangach, tu hwnt i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd a Choch sydd wedi ymuno â'n rhestr ddsbarthu. Erbyn hyn mae gennym fewnwelediadau gwerthfawr o'n blwyddyn gyntaf, ac yn sgil hynny rydym yn dechrau rhoi cyhoeddusrwydd iddynt trwy'r canlynol:

- **Digwyddiad #CoproMonday Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (Mawrth 2022)**  
Mae #CoproMondays yn ddigwyddiadau wythnosol sy'n para 90 munud, ar gyfer aelodau Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Y fformat arferol yw cynnig ffeithiau, persbectifau neu fewnwelediadau fel ffordd o gychwyn sgwrs, ac yna cynnal lle i gyd-drafod a chyd-fyfyrto, a chreu perthynas rhwng y cynnwys ac arfer cyd-gynhyrchu y cyfranogwyr eu hunain. Ym mis Mawrth, bu timau prosiect Gogledd Cymru a Chwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr yn rhannu'r hyn a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf o weithio

ar gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad yn eu clystyrau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nhw.

- **Digwyddiad Wythnos Cyd-gynhyrchu Cymru 2022 (wedi'i gynllunio, Mai 2022):**  
Mae Wythnos Cyd-gynhyrchu Cymru yn dod â rhaglen ynghyd sy'n cynnwys sgysiau, gweithdai a digwyddiadau yn ymwneud â chyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad. Mae'n cael ei chynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 16 Mai 2022. Rydym wedi trefnu sesiwn i drafod ein blwyddyn gyntaf o gyd-gynhyrchu gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac i fyfyrio arni, a bydd y sesiwn hon yn agored i aelodau'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn ogystal â'r rhwydwaith cyfan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- **Gofod3, digwyddiad arddangos Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer y trydydd sector (wedi'i gynllunio, Mehefin 2022):**  
Rydym wedi trefnu rhedeg sesiwn a rhannu'n gwaith gyda phobl o bob rhan o'r sector sy'n dod i ddigwyddiad arddangos Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru eleni.

Byddwn y parhau i chwilio am gyfleoedd i rannu'r gwaith hwn, naill ai mewn digwyddiadau yr ydym yn eu trefnu, neu trwy wahoddiad i gyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithiau eraill. (Gweler adran E isod, am ddod i gyswllt â mudiadau a rhwydweithiau eraill).

Rydym hefyd yn ystyried datblygu darnau ysgrifenedig ar gyfer gwefan y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu sydd wedi cael gweddnewidiad yn ddiweddar (mae blog ar gael erbyn hyn) a sianeli ysgrifenedig eraill.

## E. Dod i gyswllt â mudiadau a rhwydweithiau eraill

O gamau cynnar y gwaith o ddatblygu'r cynnig ar gyfer y rhaglen hon, rydym wedi bod yn dod i gyswllt â gwaith partneriaid allweddol a chyfeillion beirniadol, gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, tîm Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Credydau Amser Tempo, Cyfoeth Naturiol Cymru, ACE - Gweithredu yng Nghaer a Threlái, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Adfywio Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Trwy gydol y gwaith cychwynol a'r gwaith datblygu ym mlwyddyn un, rydym wedi parhau i feithrin perthnasoedd ac i rannu'r diweddaraf a'r dysgu gyda nifer o fudiadau a rhwydweithiau.

### Grŵp strategol y Rhaglen

Daethom â grŵp strategol o bobl at ei gilydd sydd â diddordeb mewn cadw ar flaen datblygiadau yn y rhaglen hon, am eu bod yn gweld cysylltiadau at eu gwaith neu fuddion i'w gwaith, ac yn awyddus i gefnogi lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Nid oes gan y grŵp hwn unrhyw rôl lywodraethu neu oruchwylio ffurfiol, ond mae'n ddefnyddiol i gysylltu'r rhaglen gyda mudiadau eraill, ar lefel strategol. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol am awr, ac felly mae'n ymrwymiad ysgafn ond yn ddigon i ddiweddarau pob un (a hynny am ddatblygiadau'r rhaglen, a gwaith ei gilydd).



Ar hyn o bryd, mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru (tîm Partneriaethau Llywodraeth Leol)
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gofal Cymdeithasol Cymru (Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Adfywio Cymru

Caiff sefydliadau neu bobl eu hychwanegu at y grŵp mewn ffordd organig, ar awgrym aelodau eraill neu wrth i ni ddatblygu perthynas newydd a fydd, yn ein barn ni, yn elwa arno.

### **Rhwydwaith Swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru**

Mae'r tîm Partneriaethau Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhwydwaith o swyddogion a chydlynwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cawsom wahoddiad i gyfrannu yn rhai o'u cyfarfodydd ac i roi'r diweddaraf am ein gwaith ar gyfer eu bwletin e-bost.

### **Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae aelodaeth y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae yna rwydwaith mewnol (i Lywodraeth Cymru) o swyddogion sy'n eistedd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru.

Cawsom wahoddiad i fynd i gyfarfodydd ac i roi'r diweddaraf am y rhaglen dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r bwriad o fynychu sesiynau yn y dyfodol i roi diweddariadau pellach.

### **Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi ac yn cydlynu'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar, mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ffurfiwyd y grŵp hwn o fudiadau sy'n rhanddeiliaid yn ystod camau cychwynol cyfnod clo pandemig 2020, er mwyn cydnabod y gweithgarwch ar lawr gwlad a oedd yn amlygu mewn cymunedau ac i weithio arno. Dyma faes gwaith sy'n cyd-fynd â'r rhaglen Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithgarwch y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu ehangach, ac rydym wedi bod yn cadw ar flaen datblygiadau trwy gyswllt anffurfiol gyda'r mudiadau allweddol, a thrwy gefnogi'r gwaith o drefnu digwyddiadau ar y cyd yn hwyr yn 2021.

Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn datblygu ei chynlluniau strategol ar gyfer y dyfodol a gwahoddiwyd Rheolwr y Rhaglen i ymuno â grŵp llywio'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar, er mwyn cefnogi ei gwaith a siapio'i gwaith, yng ngolau rhaglen cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae yna gysylltiad rhwng Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol trwy sawl sianel ffurfiol ac anffurfiol, ac yng nghyd-destun y rhaglen Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hon rydym wedi bod yn diweddarau'r tîm am gynnydd ac yn cysylltu â'u strwythur newydd o Bwyntiau Cyswllt Cyrff Cyhoeddus.

Aethom ati i gynnig rhywfaint o gymorth i dîm y Swyddfa o ran adolygu'r hyn a ddysgwyd o'r Aseidiadau Llesiant (gweler yr adran nesaf, adran F, am weithgareddau ychwanegol y rhaglen).

## **F. Gweithgareddau ychwanegol y rhaglen**

Cawsom sgysiau gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am yr adborth y mae'r Swyddfa'n ei roi am yr Aseidiadau Llesiant; dyma oedd prif ffocws y timau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr ydym wedi bod yn gweithio gyda nhw yn ystod y flwyddyn hon oherwydd y rhwymedigaethau statudol a'r dyddiadau terfyn. Mae adborth y Swyddfa'n canolbwyntio ar amlygu arfer da, a rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch symud o'r Aseidiadau Llesiant at ddrafftio amcanion Llesiant a datblygu Cynlluniau Llesiant Lleol.

Nid oes gofyniad statudol na chanllaw sy'n nodi bod yn rhaid i'r Aseidiadau Llesiant gynnwys methodoleg, neu adrodd am ddulliau gweithredu arloesol a'r gwersi a ddysgwyd.

Fodd bynnag, er nad yw'r rownd bresennol o Aseidiadau Llesiant yn gweld Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n gwbl gyd-gynhyrchiol, eto, gwelwyd cynnydd o ran ansawdd ymgysylltiad ac ymgyfraniad ystyrllon. Byddai'n werthfawr sicrhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r arloesi, yr arbrofi, yr uchelgais a'r gwaith o ymsefydlu'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, sydd wedi digwydd wrth ymgymryd â'r Aseidiadau Llesiant ledled Cymru. Bydd cydnabod a dilysu'r cynnydd yn cyfrannu at y gallu i gadw momentwm, cynnal morâl a chynhyrchu cyngor ac arweiniad sy'n fwy ystyrllon.

Mae ein hymgyngorwyr wedi dylunio proses werthuso sy'n seiliedig ar naratif, i redeg yn ychwanegol at broses adborth y Swyddfa. Mae'n elfen ddewisol ac fe'i cynigiwyd i bob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail wirfoddol. Mae tri wedi manteisio ar y cyfle: Sir Gaerfyrddin, Wrecsam, a Gogledd Cymru fel clwstwr.

Mae'r broses yn golygu cyfweiliadau wedi eu lled-strwythuro gydag ymgynghorwyr cyd-gynhyrchu o'n tîmau prosiect, mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynnig lle i fyfyrion ac i grisialu'r elfen "sut" yng ngwaith ymgysylltu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (ochr yn ochr â'r elfen "beth" yr adroddir arni yn yr Aseidiadau Llesiant). Y nod yw archwilio profiadau swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynnig lle diogel i fyfyrion ar y llwyddiannau a'r heriau, i gefnogi datblygiad parhaus arfer gorau arloesol.

Dyma fydd allbynnau'r gwerthuso sy'n seiliedig ar naratif:

- myfyrio ar sut y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn hwyluso ymgyfraniad ystyrion ac yn symud tuag at gyd-gynhyrchu;
- cyngor ac arweiniad ynghylch sut y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus adeiladu cynnydd parhaus trwy ddrafftio amcanion llesiant a datblygu Cynlluniau Llesiant;
- meini prawf cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Rydym wedi gallu cynnig y gweithgarwch hwn sy'n ychwanegol at gynllun gwreiddiol y rhaglen, gan fod gennym rywffaint o gapasiti rhydd oherwydd y newid rhwng clwstwr Powys a Gorllewin Cymru. Bachodd ein timau prosiect y cyfle i fyfyrio ar yr hyn fyddai'n gymorth ac yn fewnbnw defnyddiol o ystyried y capasiti rhydd a oedd ar gael.



### 3. Yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu ym mlwyddyn un

Cyflwynwn isod y pwyntiau dysgu allweddol gan y timau prosiect unigol a'r clystyrau unigol (ac eithrio Gorllewin Cymru oherwydd mae'r gwaith ar fin dechrau go iawn yn yr wythnosau nesaf), yn ogystal â'r themâu a amlygodd ac sy'n berthnasol ar draws y rhaglen gyfan.

#### A. Gogledd Cymru

*"Gall camau bychain arwain at effeithiau mwy"*

*~ Mike Corcoran, Suzanne Iuppa*

Rydym wedi cysegru amser at feithrin cydberthnasau ac ennyn ymddiriedaeth partneriaid unigol, un ar y tro, gan eu helpu'n raddol i ddod at ei gilydd fel partneriaeth gydlynol – elfen sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt feddwl am gyd-gynhyrchu mewn ffordd strategol.

Trwy ddefnyddio cyfarfodydd cydweithredol y Bartneriaeth Ymchwil a Deall, rydym wedi hwyluso mwy o waith partneriaeth, ac wedi awgrymu cylchdroi'r Cadeirydd a'r sawl sy'n cymryd nodiadau er mwyn rhannu perchnogaeth dros y cyfarfodydd. Erbyn hyn, mae'r Bartneriaeth Ymchwil a Deall yn lle i rannu arfer da, data - gan gynnwys data yn ymwneud â grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchoddedig - a dealltwriaeth ar draws ardal y clwstwr. Rydym wedi awgrymu Agenda i edrych ar 6 thema a nodwyd fel rhai allweddol yng Ngogledd Cymru (gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc) dros y 6 chyfarfod cyntaf, gyda'r nod wedyn o weld a fydd gofyn i ni newid y themâu hyn.

Nawr, mae yna sôn am sefydlu Rhwydwaith Ymgysylltu Gogledd Cymru ar draws y clwstwr, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sefydlu'r Rhwydwaith. Bydd hwn yn lle arall y gallwn gydweithio er mwyn cyd-gynhyrchu.

Mae prosiectau bach â chanlyniadau da yn bwyntiau trafod rhagorol. Gallai hwn fod yn un ymgynghoriad, neu yn holiadur ymgysylltu wedi ei wneud yn dda. O'r enghreifftiau bychain o gyd-gynhyrchu yr ydym wedi eu rhannu gyda nhw, gwelai'r Bartneriaeth Ymchwil a Deall ffordd iddynt allu dechrau cydweithio.

Nawr, gallwn bwyntio at nifer o enghreifftiau lle mae gwerthoedd cyd-gynhyrchu yn cael dylanwad uniongyrchol ar weithredu a gweithgareddau ar draws Gogledd Cymru (ar raddfa fach, ond ystyrlon). Mae hyder ac uchelgais ar gynnydd, a seilwaith cefnogol yn dod i'r amlwg.

#### **Pwyntiau dysgu allweddol:**

- Mae dull gweithredu ar sail asedau yn golygu dechrau o ble'r ydych chi (a rhoi amser i'ch hun i ddatblygu oddi yno).
- Gall newidiadau bychain gronni fel caseg eira i sicrhau effeithiau mawr.

- Os nad yw'r seilwaith ar gyfer cydweithio yn ei le rhwng partneriaid - yna ni ellir sicrhau newid mewn diwylliant ar raddfa fawr, tuag at gyd-gynhyrchu a chydweithio. Mae'n fuddsoddiad rhagflaenu y mae'n rhaid ei gael.

## B. Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr

*"Sicrhau bod y seilwaith iawn yn ei le a meithrin cydberthnasau"*

*~ Rae Baker, Jenny Mushiring'ani Monjero, Andrew Diggle*

Yn wreiddiol, derbyniodd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ein cynnig ar gyfer dwy ffrwd gwaith i gefnogi eu siwrnai cyd-gynhyrchu dros y pum mlynedd nesaf: un yn canolbwyntio ar yr Asesiadau Llesiant ym mlwyddyn un, ac un yn cynnal golwg hirdymor ar y datblygiad 5 mlynedd. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cawsom ymdeimlad ein bod yn colli natur hirdymor y rhaglen bum mlynedd, a bod yr holl ffocws a'r adnoddau yn cael eu neilltuo i'r un elfen a oedd dan bwysau amser (yr Asesiad Llesiant). Mae'n anodd cadw llygad ar y sefyllfa hirdymor pan fo pwysau byrdymor.

Lansiodd cydlynwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â'u cydweithwyr ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, "Fframwaith 100 Diwrnod o Ymgysylltu" fel strategaeth ar gyfer cyd-gynllunio Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac Asesiad o Anghenion y Boblogaeth rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gydag aelodau o'r cymunedau lle maent yn gweithredu.

Ond roedd yna nifer o faterion o ran capasiti o fewn y mudiadau partner a'r gweithlu rhanbarthol, ac oherwydd hynny gwelwyd oedi cyn gweithredu yn ystod y cam paratoi. Oherwydd hyn, ni lanswyd y Grŵp Gweithredu Cymunedol a oedd yn goruchwyllo'r broses, yn ffurfiol, hyd nes 40 diwrnod i mewn i'r broses 100 diwrnod. Unwaith y sefydlwyd y Grŵp Gweithredu Cymunedol, parhaodd cynnydd y gweithgarwch ar gyflymder llawer arafach nag a ragwelwyd. Er y cafwyd rhai gweithgareddau ymgysylltu gwych, gyda rhannau o'r gymuned na chlywyd eu lleisiau'n aml, ac yn bwydo data defnyddiol i mewn i adroddiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, roedd yn dal i fod yn anodd datblygu a meithrin cefnogaeth partneriaid. Gellid fod wedi cyflawni llawer mwy gyda'r seilwaith cywir, y gefnogaeth gywir a'r cynllunio cywir.

Mae'r tîm prosiect a'u cysylltiadau yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal i fynd trwy'r cam "ffurfio" (y cam darganfod, dod i adnabod ffyrdd o weithio'i gilydd) a "stormio" (profi her a gwthio yn ôl, gorlethu a rhwystredigaeth) yn y broses o ddatblygu'r grŵp. Mae ein tîm prosiect yn bachu'r cyfle a gyflwynwyd gan y newid yng nghyfansoddiad y tîm i osod paramedrau a ffiniau newydd; ymddengys nawr fod y berthynas yn troi cornel. Mae sefydlu cydberthnasau gweithio yn rhan arferol o'r broses o weithio gyda phrosiectau ac yn gallu cymryd amser. Mae'r dyfalbarhad yn parhau gyda'r her hon, ond mae yna dystiolaeth o ddysgu ac adeiladu ar yr hyn a wnaethpwyd hyd yn hyn; bydd yr agwedd hon ar ffyrdd o weithio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffrwd gwaith pwysig ym mlwyddyn 2.

## Pwyntiau dysgu allweddol:

- Mae gwrthdaro yn rhan arferol o newid, ac ni fydd pethau'n mynd yn llyfn bob tro; dylid gweld unrhyw broses o'r fath fel proses o ddysgu, sydd â'r rhyddid i esblygu ar ei chyflymder ei hun.
- Mae cydberthnasau a sut y mae seilwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hwyluso'r broses o gyflawni, yn elfen gyffredin sy'n rhwystro cynnydd, ac mae'n amlwg mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru.

## C. Powys

*“Mae cefnogaeth ar lefel uwch-reolwyr yn hanfodol”*

*~ Vikki Butler, Roxanne Treacy*

Er i ni gael sicrwydd trwy'r cais gwreiddiol i'r rhaglen (datganiad o ddiddordeb a chyfweliad anffurfiol) fod aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yn cytuno i ymgysylltu â'r broses ac i weithio gyda ni, daeth i'r amlwg bod diffyg cefnogaeth ar lefel uwch-reolwyr yn yr Awdurdod Lleol a oedd yn arwaith ar y gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Effeithiodd hyn ar y cydberthnasau gweithio gyda holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Sylwyd yn gynnar yn y broses nad oedd gwaith partneriaeth actif a chadarnhaol ar waith ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac nad oedd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus tu allan i'r Awdurdod Lleol yn cysegru eu hadnoddau eu hunain i weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedai aelodau o'r Awdurdod Lleol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a staff yr Awdurdod Lleol eu bod eisiau gweld partneriaid allanol yn cymryd rhan, ond nid oedd yn ymddangos eu bod yn cyfathrebu nac yn gweithredu mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i hynny ddigwydd.

I'n tîm prosiect ni, roedd yr ychydig fisoedd cyntaf yn teimlo fel proses o egluro a thrafod cyson, gyda'r hyn a oedd yn teimlo fel diffyg gwerthfawrogiad o'r cymorth a'r arbenigedd a oedd yn cael eu cynnig, a hynny wedi'i ariannu'n llawn. Er i ni egluro ac ailadrodd pa gymorth yr oeddem yn ei gynnig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan o'r broses o gyflwyno'r rhaglen hon, roedd yr uwch-reolwyr yn disgwyl i ni wneud y gwaith ar gyfer tîm staff y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na gweithio gyda nhw. Yn ganlyniad, nid oedd gan swyddogion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus adnoddau na grym digonol i ymgysylltu'n ystyrlon â'r rhaglen, ac ni allent wneud penderfyniadau yn ymwneud â'n gwaith. Enwyd y cysylltiadau arweiniol yn hytrach na swyddogion penodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gwelwyd y rhaglen hon fel baich ychwanegol.

Pan ddywedodd yr Awdurdod Lleol wrthym eu bod yn dymuno camu i lawr o'r rhaglen, gan nodi diffyg capasiti a straen yn ymwneud â Covid fel rheswm, daeth yn amlwg nad oeddent wedi ymgynghori ag aelodau eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyn penderfynu diweddu eu

hymgyfraniad; nid oeddent ychwaith wedi dweud wrth aelodau eraill y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyn dweud wrthym ni.

Mae'n hanfodol fod cefnogaeth ac ymrwymiad i ddull cyd-gynhyrchu ar lefel uwch-reolwyr, a dylid cyfathrebu'r diben hwn yn glir a chytuno arno gyda mudiadau sy'n bartneriaid ac yn rhanddeiliaid ac sy'n mynd i fod ynghlwm. Mae cydweithio'n hanfodol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion a chymunedau ar draws bwrdd cyhoeddus fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a rhaid bod aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yn gallu ymgysylltu â'i gilydd fel partneriaeth. Gallai ein gwaith yn rhan o'r rhaglen hon fod wedi dechrau rhoi sylw i'r mater hwn, ond tynnwyd y cyfle yn ôl cyn i ni allu dechrau.

#### **Pwyntiau dysgu allweddol:**

- Rhaid bod cyfathrebu a gwaith partneriaeth actif, a strwythur penderfynu clir, er mwyn sicrhau bod cydweithio yn cefnogi ymgysylltu a chyd-gynhyrchu.
- Mae systemau rheoli nad ydynt yn rhoi lle i ymreolaeth a phenderfynu o fewn rôl wedi'i diffinio, yn atal cynnydd.

## **D. Themâu cyffredinol a amlygodd ym mlwyddyn un**

Ar draws y rhaglen, mae ein hymgyngorwyr yn annog y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y maent yn gweithio gyda nhw, i fyfyrion rheolaidd ar eu taith cyd-gynhyrchu fel ffordd o wella'n barhaus. Yn aml, rydym yn defnyddio offeryn gwerthuso cyflym Plus/Delta: yr hyn aeth yn dda (plus) a'r hyn y gellid ei wella (delta). Mae ymgyngorwyr ein timau prosiect yn defnyddio'r dechneg hon eu hunain yn rheolaidd, yn rhan o'r myfyrion ysgrifenedig wythnosol a'r cyfarfodydd tîm.

Isod mae rhai o'r themâu sydd wedi amlygu ym myfyrdodau ein timau prosiect, sy'n berthnasol ar draws eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u clystyrau.

### **Tyfu'r ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad**

Ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mae yna ddealltwriaeth gyfyngedig o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad, a sut mae'n edrych, o hyd.

Cynigiwyd sesiynau briffio am gyd-gynhyrchu i rwydwaith swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn gynnar iawn yn 2021 (cyn dechrau'r rhaglen hon), gyda'r gobaith o sefydlu rhai cysyniadau sylfaenol cyn iddynt ddechrau ar eu Hasesiadau Llesiant. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod y cyd-destunau y maent yn gweithio ynddynt, a'r straen fu arnynt o ran amser, cyfyngedig fu effaith ein hymyriadau.

Wrth ddysgu gan ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd yn benodol, mae wedi bod yn flwyddyn heriol oherwydd y pandemig parhaus a mathau eraill o straen wrth ddarparu gwasanaethau. Bu'n rhaid iddynt addasu'n gyflym i ddarparu ar-lein, heb fawr o amser i

gynllunio ac i ystyried pa ddulliau fyddai'n gweithio iddyn nhw a'u cymunedau. Mae hyn wedi arwain at ddull 'yr un peth i bawb' gan ddefnyddio llwyfannau digidol fel Teams a Zoom i ymgysylltu, a dulliau traddodiadol o gyfathrebu fel holiaduron a negeseuon e-bost. Ni chafwyd fawr o amser, na lle i feddwl, er mwyn ystyried dull gwirioneddol gyd-gynhyrchiol hefyd.

I raddau mwy neu lai, bu'n rhaid i'n tri thîm prosiect egluro ffiniau i'w timau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a oedd yn disgwyl iddynt wneud y gwaith cyd-gynhyrchu ar eu cyfer i ddechrau, yn hytrach na'i wneud gyda nhw. Y neges yr ydym wedi bod yn ei rhannu o'r dechrau'n deg, yw mai ein rôl ni yw gweithio gyda phobl, a'u cefnogi, a meithrin gallu a hyder yn eu timau nhw, ac mae'n rhaid ailadrodd y neges hon yn aml er mwyn iddi gael ei deall - hyd yn oed pan gaiff ei derbyn mewn egwyddor, yn ymarferol mae capasiti ychwanegol ar frig rhestr o ddymuniadau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gobaith y gall y timau prosiect ysgwyddo rhywfaint o'r llwyth.

Nid yw arfer cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad cadarn yn rhywbeth y mae angen ei wneud ar ben y llwyth gwaith arferol. Yn hytrach mae'n ddull gweithredu a fydd yn hwyluso'r broses ymgysylltu ac ymgyfraniad mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio (gan gynnwys helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni rhwymedigaethau statudol). Nid yw hyn yn cael ei ddeall yn llawn eto, a bydd yn rhan o'r ffocws ym mlwyddyn dau.

Rhoddir hyfforddiant cyd-gynhyrchu pellach ym mis Mehefin i aelodau ein rhwydwaith dysgu a rhannu ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Coch a Gwyrdd); trwy ailadrodd y neges, gan eu bod nawr wedi gweld rhywfaint o arfer drostynt eu hunain, efallai y bydd y neges yn taro'n wahanol. Bydd y sesiwn yn cwmpasu'r ddamcaniaeth ac enghreifftiau ymarferol eto, ac yn anelu at sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad fel sylfaen i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

### **Sefydlu cydweithio cadarn fel elfen sy'n angenrheidiol ar gyfer cyd-gynhyrchu**

Er bod pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno sefyllfaoedd sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd, mae'r tri thîm prosiect wedi codi meddyliau ynghylch gwaith partneriaeth. Er bod y datganiadau o ddiddordeb i fod yn rhan o'r rhaglen wedi nodi eu bod oll yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ar draws aelodau eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd y gwirionedd trwy lygaid ein hymgynghorwyr yn amrywio.

Mae aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi gwybodaeth i aelodau eraill Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy adroddiadau a diweddariadau. Prin yw'r dystiolaeth o gyfathrebu, rhannu gwybodaeth a gwaith partneriaeth rhwng cyfarfodydd: mae aelodau'n dod at ei gilydd i adrodd yn ôl a rhannu diweddariadau, ac yna'n mynd ar hyd eu llwybrau gwahanol tan y cyfarfod nesaf. Byddai meithrin cydberthnasau cryfach o gydweithio, sy'n rhedeg trwy waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, fel elfen gyson, yn fuddiol; er mwyn gwneud hyn mae angen newidiadau bwriadol i'r seilwaith, er enghraifft rhwydweithiau rhannu arfer a lle i fyfyrion ar y cyd.



Oherwydd y canfyddiad o gapasiti, gall fod gorddibyniaeth ar Awdurdodau Lleol i reoli ac i gwblhau gwaith angenrheidiol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; oherwydd yr anghydbwysedd hwn, mae'r llwyth gwaith a'r pŵer wedi eu dosbarthu'n anghyfartal ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac nid yw hyn yn hwyluso'r gallu i gydweithio. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae anghydraddoldeb yng nghyberthnasau aelodau, cyfathrebu gwael rhwng aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac elfennau ymarferol - fel systemau TG a ddefnyddir gan sefydliadau gwahanol - wedi bod yn rhwystro'r cydweithio.

Gellid gwella gwaith partneriaeth gyda phartneriaid allanol hefyd, er enghraifft, gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn un o'r meysydd prosiect, daeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at ei gilydd i gynnal eu Hasesiad Llesiant a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Leol; er bod gofyn goresgyn rhai heriau cychwynnol wrth wneud hyn, y nod oedd lleihau'r blinder ymgynghori mewn cymunedau yn sgil dyblygu ymgysylltiad. Byddwn yn parhau i archwilio'r dull gweithredu hwn.

Mae cydweithio effeithiol yn dibynnu ar systemau ac ymddygiadau. Er y gallai ymddangos bod canolbwyntio ar sefydlu cydweithio da yn bell o'r nodau yr ydym wedi eu datgan ynghylch gweithio ar gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad, gwaith partneriaeth effeithiol yw'r sylfaen ar gyfer adeiladu cyd-ymgysylltiad ystyrlon, a dechrau gwau'r gwerthoedd cyd-gynhyrchu trwy'r gwaith. Cysegrwyd rhan fawr o flwyddyn un i feithrin cyberthnasau ac ymddiriedaeth gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhyngddynt, er mwyn eu cefnogi i ddod ynghyd fel partneriaethau cydlynol. Bydd y ffocws hwn yn rhedeg trwy flwyddyn dau, gydag estyniad i mewn i ymgysylltu ac ymgyfraniad.

### **Cynllunio digon o adnoddau i mewn (o ran amser a sgiliau) ar gyfer cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad**

Mae gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus adnoddau cyfyngedig ar gyfer ymgymryd â'u rhwymedigaethau ymgysylltu, ac mae hyn yn cael effaith gref ar eu gallu i fabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad yn eu gwaith. Mewn rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mae yna swyddogion penodol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond nid ydynt yn gweithio'n benodol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: mae eu gwaith ar faterion yn ymwneud â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol, ac yn aml gwelir y gwaith hwn fel baich.

Amser yw'r ffactor sy'n cyfyngu fwyaf arnynt, ac mae'n ddealladwy eu bod yn troi at ein timau prosiect gan ddisgwyl y byddwn yn ychwanegu capasiti trwy ysgwyddo rhywfaint o'r llwyth ymgysylltu ac yn "gwneud ar eu cyfer". Mewn gwirionedd, ein nod yw ychwanegu capasiti trwy ddealltwriaeth gadarn fod cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad yn ymwneud â sut yr ydych yn gwneud yr hyn rydych yn ei wneud, ac nad yw'n llwyth gwaith ychwanegol, a thrwy drosoli'r adnoddau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ddigonol yn eu cymunedau, trwy ddatblygu perthnasoedd o ymddiriedaeth. Gydag amser a sylw yn brin i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nid yw'r neges hon wedi taro'r glust yn llwyr eto, ac rydym yn parhau i'w hatgyfnerthu a'i dangos ar waith.

Yn gyffredinol, ffocws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus oedd yr Aseidiadau Llesiant dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd eu holl gapasiti a'u hadnoddau yn cael eu cyfeirio at gwblhau'r dasg hon. Y canlyniad oedd anallu i ymgysylltu'n llwyr â'r rhaglen ac anallu i ystyried cynlluniau cyd-gynhyrchu mwy hirdymor tu allan i waith yr Aseidiad Llesiant. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dechrau symud o'r cam asesu at ddatblygu eu Cynlluniau Llesiant erbyn hyn, ac mae'n timau prosiect yn eu hannog i fyfyrion ar eu hanghenion a'u cyfleoedd cyd-gynhyrchu ar sail fwy hirdymor.

Mater arall, sy'n gysylltiedig â seilwaith, llywodraethu a phrosesau penderfynu, yw bod swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn gyffredinol, yn dueddol o fod â diffyg grym. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad, oherwydd yr angen i gael cadarnhad a chymeradwyaeth y corff y maent yn ei gynrychioli, yn arafu cynnydd - a'r gallu i fabwysiadu dulliau gweithredu arloesol - yn sylweddol.

Yn olaf, mae yna rai bylchau sgiliau a gallu o ran cynllunio a dadansoddi ymgysylltiad ystyrion gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, heb sôn am gyd-gynhyrchu ac ymglyfraniad (a'r rhannu penderfyniadau a'r meithrin cydberthnasau y mae hyn yn ei olygu). Mewn rhai ardaloedd, mae swyddogion ymgysylltu penodol wedi bod yn datblygu arfer da sy'n bwydo i mewn i waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac sy'n gofyn am ddyfnhau a mireinio yn unig, er mwyn trawsnewid yn cyd-gynhyrchu ac yn ymglyfraniad; ond mewn ardaloedd eraill, mae yna ddiffyg adnoddau difrifol ar gyfer y rolau hyn oherwydd nifer o ragdybiaethau, ac nid yw ymgysylltu sylfaenol yn cael ei wneud yn dda. Law yn llaw â diffyg cydnabyddiaeth o bwysigrwydd neilltuo amser digonol i gynllunio ymgysylltiad, mae hyn yn arwain at ymgysylltu sydd wedi'i gynllunio a'i weithredu'n wael. Er enghraifft, gellid ystyried bod holiaduron ansoddol yn cyfrif fel ymgysylltiad sy'n ddigon cadarn, a meddylir bod sgiliau ymgysylltu yn hawdd eu codi, heb unrhyw hyfforddiant ffurfiol a phrofiad. Yn ganlyniad, mae arolygon wedi eu cynllunio'n wael yn arwain at gyfraddau ymateb isel a dadansoddiad aneffeithiol, ac mae swyddogion yn dibynnu ar un o ddwy sianel ymgysylltu i gwmpasu ehangder a dyfnder eu cymunedau. Mae treiddiad yn isel a'r canlyniadau'n llai na chynrychiadol. Ein nod yw gwella'r ddealltwriaeth o'r data sy'n angenrheidiol a pham y mae'n angenrheidiol, ac adeiladu sgiliau o amgylch ffyrdd gwahanol o'u casglu o amrywiaeth o gymunedau, er mwyn arwain at gydberthnasau dyfnach a'r posibilrwydd o gael sgysiaid cyd-gynhyrchiol, yn enwedig gyda chynulleidfaoedd sy'n cael eu tangynrychioli'n draddodiadol.

### **Tueddiadau cadarnhaol sy'n datblygu ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ym mlwyddyn un, mae ein timau prosiect wedi bod yn meithrin cydberthnasau gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o bartneriaethau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, adnabod heriau eu hardaloedd prosiect penodol, a thrwytho'u hunain yn niwylliant gweithio'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyffredinol. Er gwaethaf yr heriau a ddisgrifir uchod (ac mae'r themâu hyn yn gyffredin yn y darlun o'r gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru), mae yna nifer o newidiadau cadarnhaol ac arwyddion cynnydd i'w hamlygu hefyd:

- sut y mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi addasu i weithio'n rhithwir a thrwy sianeli digidol yn ystod y pandemig;

- parodrwydd i roi tro ar arferion ymgysylltu mwy arloesol yn rhan o'r Asesiadau Llesiant (e.e. 100 Diwrnod o Ymgysylltu, Hacathonau);
- sefydlu fframweithiau er mwyn galluogi gwaith partneriaeth cydweithredol (e.e. cylchlythyron rheolaidd, cylchdroi cadeiryddion cyfarfodydd ar fyrddau Partneriaeth Deall Rhanbarthol, ayb.)
- archwaeth i fabwysiadu cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad mewn egwyddor.

Nid ydym yn ceisio creu'r argraff fod maint yr heriau yn llai nag yr ydynt, ond mae yna hadau arfer, ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol y gellir adeiladu arnynt yn ystod yr hyn sy'n weddill o'r rhaglen.



## 4. Risgiau a heriau

Yn ddiweddar, cynhaliodd tîm y rhaglen sesiwn chwilio'r gorwel er mwyn ystyried risgiau a heriau posibl i'r rhaglen dros y 4 blynedd nesaf.

Law yn llaw â'u profiad, eu dysgu a'u dadansoddiad nhw eu hunain, bu'r tîm yn ystyried [Adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021](#) gan Archwilio Cymru, er mwyn dod i ddeall y cyd-destun ehangach y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio ynddo. Mae'r adroddiad yn crynhoi tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ac yn cyflwyno rhai o'r materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys heriau a chyfleoedd allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd nesaf.

### A. Risgiau a heriau i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Ffactorau yng nghyd-destun ehangach gwasanaethau cyhoeddus y mae arnom angen bod yn effro iddynt, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y drafodaeth hon:

- Effeithiau hirdymor Covid-19 (nid ydym yn gwybod beth ydynt eto) (ar yr economi, ar ddiogelwch gwasanaethau, ar iechyd meddwl a chorfforol, a'r risg o weld tonnau pellach yn y dyfodol).
- Yr alinio/tensiwn posibl rhwng agendâu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn enwedig ar ôl Brexit, a chynlluniau cyllido cenedlaethol (bargenion twf, Cyllid Dinas-Ranbarth, yr agenda Ffyniant Bro). Mae'r adroddiadau cynnar yn awgrymu lleihad sylweddol mewn cyllid cyhoeddus yng Nghymru yn absenoldeb cyllid yr Undeb Ewropeaidd.
- Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar ddinasyddion a gwasanaethau.

- Rhywbeth sy'n mynd law yn llaw â'r adferiad ar ôl Covid, a'r cynnydd mewn costau byw, yw sefyllfa'r farchnad dai yn ganlyniad i'r pandemig. Mae dwy o ardaloedd y clystyrau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gweld cynnydd yn y tai haf sy'n cael eu prynu, a lleihad yn argaeledd eiddo i'w gosod yn y tymor hir. Gallai hyn gael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol.
- Y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â symudiad parhaol tuag at fodelau gweithio o bell a gweithio hybrid. Mae yna rwystrau canfyddiadol a rhwystrau go iawn i ymgyfraniad ystyrion, ac i feithrin cydberthnasau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyd-gynhyrchu. Ni all ymgysylltu ar-lein yn unig fod yr unig sianel.
- Cyhoeddiad yr Asesiadau Llesiant a chamau nesaf y broses gynllunio llesiant (drafftio amcanion llesiant; datblygu Cynlluniau Llesiant).
- Argyfyngau hinsawdd a natur (datganiadau ac ymrwymadau; hefyd yn cynnwys tywydd eithafol yn digwydd yn amlach).

## B. Risgiau a heriau i'r timau prosiect

Bu'r timau prosiect yn asesu ffactorau yn ymwneud â'u Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus penodol, y bydd gofyn iddynt fod yn effro iddynt.

Roedd gan y timau prosiect yn gyffredinol bryderon ynghylch gallu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ymgysylltu â'r rhaglen, o ystyried y ffactorau a amlygwyd uchod. Un pryder penodol oedd y gallai gwaith partneriaeth a'r agenda cynllunio llesiant gael blaenoriaeth is petai sylw aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn symud at argyfyngau mwy dybryd.

Yn ogystal, mae uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (RhCT a Merthyr Tudful) a Phen-y-bont ar Ogwr yn un clwstwr, ac ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Ngorllewin Cymru, yn ffactorau y mae'r timau prosiect yn rhagweld y gallent hawlio sylw aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y rhaglen.

Nid yw un o ymgyngorwyr y timau prosiect yn hollol rugl yn Gymraeg; gallai hyn fod yn rhwystr i ymgysylltiad gyda rhai aelodau o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u cymunedau. Ystyriwyd hyn ar gam datblygu'r rhaglen a sicrhawyd bod tîm y rhaglen yn cynnwys dau siaradwr Cymraeg rhugl mewn rolau cymorth ar draws y bwrdd (Rheolwr y Rhaglen a Chydlynnydd y Rhaglen), sy'n gallu cynnig cymorth dwyieithog lle bynnag y bo hynny'n bosibl er mwyn galluogi pobl i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Fel sefydliad, mae'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu hefyd yn datblygu cynllun gweithredu ac ymrwymiad i'r Gymraeg, er mwyn gwella'r broses o ddarparu cymorth gyda chyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae tîm prosiect Gorllewin Cymru yn sylweddoli nad ydyw wedi cael yr un cyfleoedd i feithrin cydberthnasau ac i adeiladu rhwydweithiau, ac i ddysgu o wersi yn ystod y cam cynllunio ac wrth ddatblygu'r Asesiadau Llesiant, gan eu bod flwyddyn ar ei hôl hi yn y rhaglen. Er mwyn lliniaru hyn, maent yn cynnal ymchwil o'r ddesg i'r broses Asesu Llesiant ddiweddar, ac yn cael sgysiau gydag aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn dal i fyny.

## C. Dadansoddiad ymlaen llaw

Ystyriwyd fel tîm sut y gallai methiant erbyn 2026 edrych ar gyfer y rhaglen:

- Mae tîm y rhaglen yn colli'r gallu i roi cymorth i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd.
- Y berthynas rhwng y timau prosiect a'r clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd yn chwalu.
- Nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd yn cael y cymorth angenrheidiol gan eu timau prosiect.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw gyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad yng ngwaith ehangach a dull gweithredu ehangach y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd.
- Nid yw arfer cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad da yn cael ei rannu gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Coch.
- Ni cheir effaith ar y tirlun gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Dyma ein mesurau lliniaru i amddiffyn rhag y risgiau hyn:

- Mae gennym ddewis o ymgynghorwyr cyswllt cyd-gynhyrchu y gallwn dynnu arnynt am gymorth ychwanegol. Mae gennym gynlluniau wrth gefn wedi eu hadeiladu i mewn i gyllid y rhaglen er mwyn talu am gostau mamolaeth, recriwtio ayb.
- Byddwn yn parhau i gymryd rhan mewn sgysiau go iawn, ac i gyfathrebu a gwranddo. Rydym yn canolbwyntio ar gydberthnasau fel congffeini unrhyw waith ar y cyd a chyd-gynhyrchu.
- Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cymorth yn hyblyg, yn ymatebol ac yn berthnasol.
- Byddwn yn parhau i wirio risgiau a heriau'r rhaglen hon yn rhan o'n gwaith cynllunio strategol, ac yn adeiladu cynlluniau wrth gefn i mewn.
- Byddwn yn parhau i gydnabod natur cymhleth y gwaith hwn, ac yn addasu at ddatblygiadau wrth iddynt ddatblygu. Byddwn yn parhau i ddysgu ac i rannu gyda'n gilydd fel tîm cyfan, er mwyn parhau i fod yn ymatebol ac yn berthnasol.
- Byddwn yn parhau i adeiladu ein cyfathrebu rheolaidd: gyda'n gilydd fel tîm, gyda phobl ar draws ein clystyrau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd, gyda rhwydwaith Dysgu a Rhannu ehangach y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwyrdd a Choch), a gyda chymuned ymarfer Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

Yn gryno, byddwn yn parhau i fonitro ac i werthuso ein cynnydd, byddwn yn parhau i ailadrodd ac i fod yn ymatebol i angen, a byddwn y parhau i gyfathrebu ac i fodelu'r gwerthoedd a'r ymddygiadau sydd wrth wraidd cyd-gynhyrchu ac ymgyfraniad.



## 5. Y Diweddaraf am gyllid a'r gyllideb

Wrth edrych dros gyllideb y rhaglen a'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd blwyddyn un, mae gennym ambell faes lle bu gorwariant, yn ogystal â thanwariant sylweddol, ac rydym wedi ailddyrannu'r cyllid hwn yn ofalus. Dyma'r ddolen at y daenlen sy'n tracio'r gyllideb, ac isod cyflwynwn y dadansoddiad (gorwariant neu danwariant mewn perthynas â chyllideb y cais gwreiddiol) a'r newidiadau a gynigir, i'w hadolygu a'u cymeradwyo gan ein swyddog cyllido.

<https://docs.google.com/spreadsheets/d/1tY467ifJLDPtnfxMJtX5RAPKChLZZy2n2ldhomniGAE/edit?usp=sharing>

### A. Costau staff: tanwariant

#### 1. Gorwariant ar reoli'r rhaglen

Yn wreiddiol, cyllidwyd am 2 ddiwrnod (16 awr) ar gyfer Rheolwr y Rhaglen a chefnogaeth gan Gyfarwyddwr y Rhwydwaith, a sylweddolwyd, yn ymarferol, nad oedd hyn yn ddigon, felly codwyd hyn i 2 ddiwrnod ar gyfer Rheolwr y Rhaglen, a 4 awr o gymorth gan Gyfarwyddwr y Rhwydwaith, bob wythnos.

Aeth Rachel Wolfendale ar gyfnod mamolaeth o fis Rhagfyr, a threfnwyd mis o drosglwyddo gydag Ena Lloyd a fyddai'n gweithio yn ystod y Cyfnod Mamolaeth, gan ddyblu'r costau cyflogau am fis, a thalu tâl mamolaeth statudol yn ogystal â chyflog Cyfnod Mamolaeth a gorbenion.

#### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Cynigiwn ddefnyddio'r ddarpariaeth wrth gefn am flwyddyn un (2% o'r gyllideb) i dalu'r tâl mamolaeth statudol.
- Ar gyfer blynyddoedd 2 i 5 cynigiwyd cynyddu'r gyllideb ar y categori hwn er mwyn darparu ar gyfer amser ychwanegol staff.

#### 2. Tanwariant ar ymgynghorwyr cyswllt

Oherwydd yr amser a dreuliodd yn sefydlu'r prosiect a'r amser a dreuliodd yn recriwtio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, dechreuodd y gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Chwarter 3 (roeddem wedi cyllidebu o gychwyn y rhaglen). Gadawodd un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Chwarter 4 (prin iawn oedd yr oriau a weithiwyd gan y tîm prosiect yn ystod y chwarter hwnnw). Hyd yn oed wedi defnyddio peth o'r amser a oedd ar gael i gefnogi gwaith gwerthuso naratif Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r tanwariant yn uchel o hyd. Fodd bynnag, o'r ail flwyddyn, byddwn yn ôl i gapasiti llawn.

#### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rhwng y tanwariant hwn a'r costau cyflawni, sydd lawer yn is nag a ragwelwyd, cynigiwn gynyddu'r gyllideb ar gyfer yr ymgynghorwyr cyswllt ym mlwyddyn 2 i 5, er mwyn caniatáu hyd at 2 ddiwrnod o waith i bob clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yr wythnos (i fyny o 1.5 diwrnod) ar draws y tîm prosiect (2 ymgynghorydd i bob clwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).

### 3. Tanwariant ar swyddog cyfathrebu

Dechreuodd rôl y swyddog cyfathrebu (teitl y swydd yw Cydlynnydd y Rhaglen) yn Chwarter 3 oherwydd yr amser a dreuliodd yn sefydlu'r prosiect a recriwtio (roeddem wedi cyllidebu ar gyfer dechrau ar gychwyn y rhaglen). O'r ail flwyddyn bydd y rôl hon ar gapasiti llawn.

#### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Roedd y cynnig gwreiddiol yn darparu ar gyfer rôl lawn-amser am 4 diwrnod yr wythnos o gyllideb y rhaglen, ac undydd yr wythnos o gyllideb digyfyng y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu, i dalu am yr amser y byddai Cydlynnydd y Rhaglen yn ei dreulio fel pont rhwng y rhaglen wedi'i hariannu a gweithgareddau'r Rhwydwaith ehangach.
- Erbyn hyn mae rôl Cydlynnydd y Rhaglen yn rôl 30 awr yr wythnos (oherwydd recriwtiwyd ar gyfer 30-37 awr yr wythnos a rhoddwyd dewis i'r ymgeisydd llwyddiannus adeg eu penodi).
- I gwmpasu'r amser sefydlu a setlo i mewn, mae rôl Cydlynnydd y Rhaglen wedi cael ei hariannu'n llawn o gyllideb y rhaglen am y flwyddyn gyntaf (dau chwarter). Cynigiwn ei hariannu'n llawn o gyllideb y rhaglen ym mlwyddyn dau, ac yna lleihau cyfran cyllideb y rhaglen a chynyddu cyllid digyfyng y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu dros flynyddoedd 3 i 5.
- Bydd hyn yn ein galluogi i symud at gyllid digyfyng llawn gan y Rhwydwaith a chadw'r rôl yn y tîm ar ddiwedd y rhaglen.

### 4. Gorwariant ar gostau recriwtio

Costiodd y recriwtio fwy nag yr oeddem wedi ei ragweld, ac mae hyn yn ganlyniad i ddiffyg profiad yng ngham cynllunio'r gyllideb. Roedd hwn yn gost a fyddai'n codi unwaith yn unig, ac ni chafodd effaith negyddol ar weddill y rhaglen.

### 5. Gorwariant ar gostau cychwyn

Gwariwyd mwy ar liniaduron nag a fwriadwyd, gan i ni brynu 2 liniadur i'w benthyg i ymgynghorwyr fel mesur dros dro (yn ychwanegol at y rhai a gynlluniwyd ar gyfer Rheolwr y Rhaglen a Chydlynnydd y Rhaglen). Mae'r offer yn dal i fod yn asedau yn y tîm, ac nid yw'r gwariant hwn yn cael effaith negyddol ar weddill y rhaglen.

## **6. Tanwariant ar hyfforddiant**

Rydym wedi sylweddoli bod llawer o'r gwaith meithrin sgiliau a'r hyfforddiant cychwynnol yn ein tîm o staff yn cael ei wneud gan ddefnyddio adnoddau mewnol a heb unrhyw gostau ychwanegol.

### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rydym yn cynnig lleihau'r gyllideb flynyddol ar gyfer hyfforddi'r tîm yng ngolau hyn.

## **B. Gorbenion: ar y trywydd cywir**

### **1. Tanwariant ar safle (gofod swyddfa)**

Gan ein bod ni fel tîm wedi ein dosbarthu ardraws Cymru a heb swyddfa ganolog, roeddem wedi bwriadu hurio ystafelloedd cyfarfod a manau cydweithio er mwyn i ni gwrdd yn rhan o weithgareddau'r rhaglen. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, nid ydym wedi gallu gwneud hyn.

### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rydym yn cynnig lleihau'r gyllideb ar gyfer safle o flwyddyn 2, a byddwn yn parhau i fonitro lefelau gweithgarwch a'r gwariant gofynnol.

### **2. Tanwariant ar gyfleustodau**

Mae yna danwariant yn y categori hwn am i ni gyfrif am gostau meddalwedd (cyfrifon Google Workspace, MS365, Zoom) yng ngorbenion y rhaglen, er i ni gynllunio ar eu cyfer yn y categori hwn. Yn ganlyniad, mae yna orwariant o'r un faint yng nghategori gorbenion y rhaglen. Wedi ystyried ein bod ni wedi gosod y gwariant hwn yn y categori anghywir, rydym ar y trywydd cywir o ran cyfleustodau a gorbenion y rhaglen.

### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rydym yn cynnig addasu'r cyllidebau ar gyfer categorïau cyfleustodau a gorbenion y rhaglen o flwyddyn 2 ymlaen i ystyried hyn. Bydd cyfleustodau yn cynnwys ffonau yn unig, a bydd gorbenion y rhaglen yn cynnwys cyfrifon digidol yn ogystal â chyfrifo, Adnoddau Dynol ac yswiriant.

### **3. Gorwariant ar orbenion y rhaglen**

Fel pwynt #2, tanwariant ar gyfleustodau, uchod.



## C. Costau cyflawni: tanwariant

### 1. Tanwariant at farchnata a chyfathrebu

Cyllidebwyd ar gyfer yr adran hon ar sail amcan o 5% o gostau'r rhaglen. Fodd bynnag, yn ymarferol, gwelsom fod gennym y sgiliau angenrheidiol o fewn y tîm (yn enwedig tîm cymorth Cymraeg sy'n gallu llunio postiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, ac sydd â sgiliau dylunio ar gyfer cyfryngau digidol ac elfennau gweledol). Yn ganlyniad, mae ein prif gostau marchnata a chyfathrebu yn dod o gostau amser staff y tîm craidd, ac mae unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi wedi eu cyfyngu at rywfaint o gyfieithu proffesiynol. Yn y dyfodol efallai y bydd rhywfaint o gostau dylunio ar gyfer cynnyrch penodol (digwyddiadau neu gyhoeddiadau).

#### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rydym yn cynnig lleihau'r categori hwn yn y gyllideb ar gyfer blynyddoedd 2 i 5, a pharhau i fonitro anghenion a gwariant.
- Byddai unrhyw warged sydd heb ei neilltuo yn mynd tuag at amser ymgynghorwyr yn y timau prosiect.

### 2. Tanwariant ar deithio

Roeddem wedi cyllidebu er mwyn i aelodau'r tîm, sydd wedi eu dosbarthu ar draws Cymru, deithio ar gyfer cyfarfodydd mewnol a sesiynau gwaith, yn ogystal â chwrdd a gweithio ar y safle gyda'u clystyrau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, mae'r teithio wedi bod yn finimal, a galwadau fideo wedi cymryd lle'r rhan fwyaf o gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae rhywfaint o deithio'n digwydd nawr, ond fideo-gynadledda yw'r prif ddull cyfathrebu o hyd.

#### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rydym yn cynnig lleihau'r categori hwn yn y gyllideb ar gyfer blynyddoedd 2 i 5, a pharhau i fonitro anghenion a gwariant.
- Byddai unrhyw warged sydd heb ei neilltuo yn mynd tuag at amser ymgynghorwyr yn y timau prosiect.

## D. Pob cost arall: ar y trywydd cywir

### 1. Darpariaeth wrth gefn

#### **Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:**

- Rydym yn cynnig dyrannu'r ddarpariaeth wrth gefn o 2% ar gyfer y flwyddyn gyntaf, at gategori rheoli'r rhaglen er mwyn talu costau'r tâl mamolaeth statudol.

## 2. Taliadau dileu swydd

Mae'r categori hwn yn y gyllideb yn berthnasol ym mlwyddyn 5 yn unig ar gyfer diwedd contractau staff.

## E. Monitro ac adrodd parhaus mewn perthynas â chyllid

Mae Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn tracio cyllideb y rhaglen yn rhan o'r gweithrediadau ariannol misol ar gyfer y sefydliad cyfan, a chaiff ei hadolygu'n chwarterol gyda Rheolwr y Rhaglen er mwyn hwyluso unrhyw fewnwelediadau a phenderfyniadau.

Cyflwynir adroddiadau ariannol ar gyfer y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu cyfan, gan gynnwys cyllideb y rhaglen, i fwrdd cyfarwyddwyr y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu sy'n cwrdd bob yn ail fis. Caiff unrhyw benderfyniadau mawr sy'n effeithio ar y rhaglen gyfan eu cyflwyno i'r bwrdd i'w cymeradwyo.



## 6. Casgliad

Rydym yn rhesymol fodlon â'n blwyddyn gyntaf. Er nad ydym yn yr union le y buasem wedi hoffi bod (ond wedi dweud hynny roedd ein nodau'n uchelgeisiol), rydym wedi delio â heriau mewnol ac allanol, ac wedi addasu yn ôl yr angen.

Mae'r flwyddyn gyntaf hon wedi gosod sylfaen gadarn y gallwn adeiladu arni ym mlynnyddoedd dau i bump, ac edrychwn ymlaen at adrodd am gynnydd parhaus.

